[redacted] Online Contact

Annwyl [redacted] Ymhellach i'n sgwrs bore 'ma, rwyf wedi cael sgwrs gyda'm nghydweithiwr parthed CL126 ac ymddengys ein cofnodion nad yw rhan ogleddol y comin wedi ei gofrestru fel sole grazing. Yn y cyfamser rydym wedi cytuno i gadw'r holl gomin ar CPH [redacted] ond er mwyn cael hyn yn gywir mae wedi gofyn petaech yn gallu anfon tystiolaeth i fewn sy'n dangos cytundeb [redacted] ar y Comin. Gobeithio bod hyn yn dderbyniol. Diolch [redacted] Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru Ffon: 0300 062 5004

- 21/02/2022 10:51:52

[redacted] Online Contact

Annwyl [redacted] Diolch yn fawr am y diweddariad ynglyn a'r tir comin. Tybed allwch chi roi arweiniad arba wybodaeth rydych chi ei angen fel tystiolaeth o'r cytundeb ar gyfer defnydd ein aelod o'r comin? Diolch. Yn gywir, [redacted]

- 28/02/2022 11:37:47

[redacted] Online Contact

Annwyl [redacted] Diolch am eich neges ar-lein. Os mai un porwr sydd a'r hawl i bori'r tir comin, rhaid cadw at y rheolau ar gyfer unig borwyr a geir yn llawlyfrau'r CPH. Rhaid i'r ceidwad da byw gyflwyno trystiolaeth annibynnol mewn ffurf cytundeb hawliau cofrestredig bod y darn o dir comin wedi'i amgau gan ffens sy'n ddiogel rhag stoc, a phrofi mai ef yw'r unig borwr sydd wedi troi anifieliad ar y darn o'r comin yn y 10 mlynedd diwethaf. Gobeithio bod hyn yn egluro beth sydd ei angen. Os nad yw'n glir anfonwch neges i ddeud eich bod yn dymuno sgwrs am y sefyllfa a mi wnaf roi galwad i chi. Diolch [redacted] Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru Ffon: 0300 062 5004

- 02/03/2022 17:10:28

[redacted] Online Contact

Pnawn da [redacted] Diolch am y nodyn diwethaf ganddoch. Tybed allwch chi gadarnhau beth yn union ydir dystiolaeth sydd angen i'n aelod ei ddarparu os gwelwch yn dda? Fe fydd ganddo gopi o gofrestr y comin yn arddangos yr entry ar gyfer [redacted] tybiaf bod hwnnw yn ddigonol i arddangos yr hawliau cofrestredig? Fel rydym wedi nodi ar y cychwyn, maer ardal a adnabyddir fel CL126 yn ehangach nar llecyn sydd wedi ei ffensio i ffwrdd ac yn cael ei ddefnyddio gan ein aelod ni, ond dim ond yr ardal sydd wedi ei ffensio i ffwrdd ac yn taro ar daliad ein aelod sydd yn cael ei ddefnyddio ganddo. Maer ffens sydd mewn lle yn y fan honno yn gallu dal stoc i mewn (stockproof), ac mae hi yn bodoli ers ymhell dros 10 mlynedd. Ydi lluniau geo tagged or ffens yn dystiolaeth oi bodolaeth ei chyflwr ai gallu i wrthsefyll stoc? Pa dystiolaeth ddisgwylir in aelod ei gyflwyno sydd yn arddangos mai ef yn unig sydd sydd wedi troi anifeiliaid ar y comin yn y 10 mlynedd diwethaf? O ran arddangos bodolaeth y linell ffens sydd yno, mae map Lle gyda haenau comin wedi ei nodi arno yn adnabod CL126 yn ei gyfanrwydd ac maer llinell ffens iw gweld drwyddo yn unol ar mapio ar gyfer parsel SH8826 6366, atodaf gopi or map hwnnw. Ydi hynny yn ddigonol i dystiolaethu bod ffens wedi ei nodi ar y map swyddogol? Os gallwch roi arweiniad i ni ar hyn yna fe allwn ni fynd ati iw gaslgu at ei gilydd ai gyflwyno i chi. Diolch yn fawr, [redacted]

- 04/03/2022 15:36:42

[redacted] Online Contact

Annwyl [redacted] Diolch am eich neges ar lein. Rwyf wedi ceisio dod i gysylltiad ac wedi gadael neges ond hoffwn gadarnhau fy nghanfyddiadau mewn neges. Yn dilyn trafodaeth gyda'm nghydweithiwr o'r tim prosesu, dengys ein confnodion nad yw darn ogleddol CL126 wedi ei gofrestru gyda Taliadau Gwledig Cymru fel Sole grazing er bod map Lle Mapping yn dangos yn glir bod ffens yn bodoli. Fodd bynnag, pe baech yn gallu cyflwyno cytundeb swyddogol gan y Cyngor s'yn profi mai dim ond [redacted] ac [redacted] yn unig sydd a'r hawl i bori'r darn ogleddol o'r Comin, bydd modd ailystyried ein confodion gan rhannu'r comin ac ychwanegu'r darn ogleddol i CPH eich aelodau. Yn y cyfamser rydym wedi cytuno i gadw'r holl gomin ar CPH eich aelod. Edrychaf ymlaen i dderbyn tystiolaeth a phe baech angen sgwrs, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt a gofyn am eich rhoi drwadd i fI. Yr eiddoch yn gywir [redacted] Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru Ffon: 0300 062 5004

- 21/03/2022 15:10:54

[redacted] Online Contact

Annwyl [redacted], Diolch yn fawr i chi am eich nodyn o'r 21ain o Fawrth. Rydym bellach wedi cael copiau o'r gofrestr ar gyfer y Comin sydd gan Gyngor Gwynedd ac atodwn dudalen sydd yn dangos yr 'entry' cyntaf ar gyfer y tir mewn cwestiwn ar CL126, sydd yn cadarnhau bod y ffens yn bodoli ar y comin. Hefyd wedi ei atodi mae copi o'r map sydd gyda'r gofrestr yn dangos lleoliad y linell. Gobeithio bod yr wybodaeth yma yn cyd-fynd gyda'r hyn gwnaethoch holi ein aelod amdano. Diolch yn fawr. Yn gywir, [redacted]

- 22/04/2022 12:06:32

[redacted] Internal Note

[redacted], I've assigned the above message to you as we discussed this case a few weeks ago. Grateful if you could consider the evidence the agent has provided and confirm whether the Land Register can be changed to being sole grazed by [redacted]. Please give me a ring if you wish to discuss. Diolch [redacted]

- 25/04/2022 12:20:25

[redacted] Internal Note

[redacted] Online Contact

Annwyl [redacted], Rwyf wedi gadael neges ar eich peiriant ffon parthed CL 126 a buaswn yn gwerthfawrogi petaech yn ffonio'r swyddfa pan mae'n gyfleus, efallai ar ol 16 o Fai. Yn dilyn cyfarfod efo'n nghydweithwyr sy'n delio gyda Tir Comin ac er mwyn dyrannu'r darn o'r tir comin sy'n mherchnogaeth eich aelod, byddwn yn gwerthfawrogi petaech yn cyflwyno llythyr swyddogol gan y Cyngor i gadarnhau bod y tir yma wedi ei gofrestru fel sole grazing i [redacted] yn unig ac nad yw'r pori gweddill comin CL126. Gallwn wedyn gwneud trefniadau i newid y gofrestr er mwyn galluogi'ch aelod i ychwanegu'r cae sydd ar y comin i'w rhif daliad ei hun. Diolch [redacted]
Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru Ffôn: 0300 062 5004

- 10/05/2022 10:47:40

[redacted] Telephone Call

[redacted] Could you give [redacted] a call back please on [redacted] Diolch Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru Ffôn: 0300 062 5004

- 10/05/2022 16:23:58

[redacted] Online Contact

Annwyl [redacted] Diolch yn fawr i chi am y neges ddoe ffon ddoe a'r diweddariad yma ac ymddiheuriadau am fethu a chael y cyfle am sgwrs. Tybed oes modd i chi holi eich cydweithwyr i weld pam eu bod angen llythyr pellach gan y Cyngor Sir ar y mater yma os gwelwch yn dda? Ein dealltwriaeth ni ydi bod y gofrestr comin sydd yn cael eu darparu gan y cynghorau sir yn ddogfen sydd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer pob tir comin ac yn sail i'r hawliau sydd yn bodoli arno. Gan bod ein aelod wedi darparu copi o'r gofrestr sydd gan Cyngor Gwynedd, yn nodi bod y comin wedi ei rannu ar hyd y linnell ffens ac mae gyda [redacted] maer hawliau rheiny yn eistedd, yn ogystal a chopi o'r map perthnasol sydd yn rhan o'r gofrestr comin, ystyriwn bod yr wybodaeth gyflawn wedi ei chyflwyno gan ein aelod. Efallai y gall y swyddogion yn yr adran gadarnhau mai dyma beth fyddai y drefn o ran adnabod hawliau pori comin yn arferol os gwelwch yn dda? Diolch yn fawr, [redacted]

- 11/05/2022 11:28:16

[redacted] Internal Note

Further to above message I telephoned [redacted] to explain why this information is required. He will request a letter from the Council and will contact me if there are any difficulty in obtaining the required clarification. [redacted]

- 11/05/2022 12:01:31

[redacted] Online Contact

Annwyl Syr/Madam, Ymhellach i'r llinyn negeseuon yma a sgwrs ffon flaenorol, mae ein aelodau bellach wedi derbyn llythyr gan y Cyngor Sir yn nodi beth ydi rhaniad y tir comin yn unol a'r ffensys sydd mewn lle. Mae llythyr wedi ei baratoi yn ogystal a chopi o'r map a'r nodiadau yn y gofrestr, sydd wedi eu paratoi gan Gyngor Gwynedd eu hunain. Hyderaf y bydd hyn yn darparu'r dystiolaeth roeddech ei hangen ar gyfer y llecyn tir yma. Diolch yn fawr. Yn gywir, [redacted]

- 13/10/2022 10:35:23

[redacted] Internal Note

e-mail sent to [redacted] to onsider documentary evidence to support sole grazing on CL26

- 16/11/2022 16:14:46

[redacted] Agent Notification

Annwyl [redacted], Diolch am ddarparu'r dystiolaeth i gadarnhau bod y tir wedi'i gofrestru fel tir pori unigol i [redacted]. Gallaf gadarnhau fod y gofrestr wedi'i diweddaru a bod y tir wedi'i ychwanegu at y CPH. Bydd llythyr cadarnhad ar gael ar-lein yn fuan. Yr eiddoch yn gywir, Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru Ffôn: 0300 062 5004

- 02/12/2022 10:55:09